

# Monmouthshire Select Committee Minutes

Meeting of Pwyllgor Craffu Cymunedau Cryf held at Conference Room - Usk, NP15 1AD on Dydd Llun, 1af Gorffennaf, 2019 at 2.00 pm

## Councillors Present

Cynghorydd Sir L. Dymock (Chairman)  
Cynghorwyr Sir: L.Dymock, A. Easson, R. Harris and J.Treharne

## Officers in Attendance

Hazel Ilett, Rheolwyr Craffu  
Nicola Perry, Uwch Swyddog Democratiaeth  
Matthew Gatehouse, Pennaeth Polisi a Llywodraethiant

**YMDDIHEURIADAU:** Cynghorwyr Sir: P. Clarke, D. Dovey, L. Guppy, V. Smith and A. Webb

### 1. Datganiadau o Fuddiant

Dim.

### 2. Cadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol

Agorodd y Cadeirydd y cyfarfod, gan gynghori bod y Pwyllgor yn cyfarfod i ystyried cais Galw i Mewn o'r Penderfyniad Aelod Cabinet Unigol a gymerwyd ar 12<sup>fed</sup> Mehefin 2019 ynghylch Strwythur Staffio ar gyfer Democratiaeth Leol a Chymorth Busnes.

Cadarnhaodd yr Aelod Craffu'r broses o alw cais i mewn ac esboniodd y gallai Aelodau benderfynu ar un o'r canlyniadau canlynol:

1. Derbyn penderfyniad yr Aelod Cabinet
2. Cyfeirio'r mater yn ôl at yr Aelod Cabinet i'w ail-ystyried, gyda rhesymau.
3. Cyfeirio'r mater at y Cyngor.

Cafodd yr Aelodau a ofynnodd am gael galw'r penderfyniad i mewn sylw'r Pwyllgor a thynnwyd sylw at bryderon.

Roedd pryder arbennig nad oedd y broses wedi cael ei chynnal yn briodol, gyda diffyg ymgynghori ymhlith staff/undebau ac Aelodau.

Mynegwyd pryderon ynghylch y ddyletswydd gofal tuag at y staff dan sylw, a bu diffyg ymateb cydlynol i bryderon a godwyd gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaid.

Ymatebodd yr Aelod Cabinet dros Lywodraethu i'r canlynol:

- O ran ymgynghori, roedd yr adroddiad wedi bod ar Flaenraglen Waith y Cyngor a'r Cabinet ers peth amser. Roedd rhai materion staffio yn golygu bod cyfyngiadau o ran amserlenni. Roedd y cynigion yn deillio o gyfarfod y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaid ar 20<sup>fed</sup> Mai 2019, ond roedd y cyfarfod wedi ei ganslo. O ran yr ymgynghoreion, roedd hyn wedi'i drafod yng nghyfarfod y Cadeiryddion Craffu heb unrhyw wrthwynebiad.

- Roedd y Swyddog Monitro wedi cadarnhau bod y newidiadau arfaethedig i gymryd cofnodion yn gyfreithlon ac yn briodol.
- Nid yw materion staffio yn fater i'r Pwyllgorau, ac ystyriwyd y byddai'r ailstrwythuro arfaethedig yn darparu nifer briodol o staff.
- Nid oedd yr undebau wedi mynegi unrhyw bryderon ynghylch y cynigion.

Gwahoddwyd y Pennaeth Polisi a Llywodraethu i ymateb.

Ychwanegodd fod y staff wedi bod yn ymgysylltu, a'i fod wedi cynnig cyfarfod â'r staff. Mae Adnoddau Dynol wedi bod yn rhan o'r broses. Ni chafwyd unrhyw sylwadau oddi wrth undebau.

Esboniodd fod 14 o gyfarfodydd y mis, ar gyfartaledd, ac o dan y trefniadau newydd, bydd 2 Swyddog Pwyllgor a'r Uwch Swyddog Gwasanaethau Democraidd yn ymdrin â'r rhain. Mae hyn ar gyfartaledd yn 22 awr y mis.

Gofynnwyd i Aelodau'r Pwyllgor Dethol am eu sylwadau.

Ceisiwyd eglurder ynghylch y rheswm dros ganslo cyfarfod Pwyllgor GD mis Mai. Deallwyd bod hyn o ganlyniad i ymrwymadau staff yn yr Etholiadau Ewropeaidd, a dyna pam fod diffyg capasiti o fewn y tîm ar hyn o bryd.

Atebodd y Swyddog nad ydym, fel sefydliad, yn cael ein hariannu i fod â staff ar gyfer pob posibilrwydd a chydabuwyd bod y Tîm Etholiadau yn gwneud gwaith nas rhagwelwyd.

Ychwanegodd yr Aelod Cabinet y bydd y cynigion yn gwella'r gwasanaeth, ac y bydd ychwanegu Swyddog Craffu yn arwain at lywodraethu gwell.

Pan ofynnwyd iddo, eglurodd y Rheolwr Craffu mai cylch gwaith y Pwyllgor Gwasanaethau Democraidd yw sicrhau cymorth ar gyfer craffu.

Mynegodd Pennaeth y Gwasanaeth y byddai cyfaddawd o ran cymryd cofnodion byrrach a mwy cryno.

Mynegodd Aelod o'r Pwyllgor bryderon ynghylch y posibilrwydd o broblemau TG, ac effaith peidio â chael unrhyw gefnogaeth i hyn yn ystod y cyfarfodydd.

Cafwyd awgrym na ddylid rhuthro'r cynigion drwodd, ac y dylid cynnal trafodaethau ehangach.

I gloi'r cyfarfod, gofynnwyd i'r Aelodau bleidleisio. Pleidleisiodd 2 aelod i dderbyn yr argymhelliad. Pleidleisiodd 2 aelod i gyfeirio'r mater i'r Cyngor. Penderfynodd y Cadeirydd, gyda'r bleidlais fwrw, y dylai penderfyniad yr Aelod Cabinet gael ei dderbyn.

Gorffennodd y cyfarfod am **3.15 pm**